**DYDDIEDIG 28 MAWRTH 2023**

---

# GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT

# A5026 A BRON HAUL, BAGILLT

# (GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO) (GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 55) 2023

---


**Katie Wilby,**

**Prif Swyddog (Gwasanaethau Stryd a Chludiant),**

**Neuadd y Sir,**

**Yr Wyddgrug,**

**Sir y Fflint,**

**CH7 6NF**

**GORCHYMYN CYNGOR SIR Y FFLINT**

**A5026 A BRON HAUL, BAGILLT**

**(GWAHARDDIAD A CHYFYNGIAD AR**

**AROS A LLWYTHO A MANNAU PARCIO)**

**(GORFODAETH SIFIL AC ATGYFNERTHU) (DIWYGIAD RHIF 55) 2023**

Mae Cyngor Sir y Fflint, wrth ddefnyddio'i bwerau dan adrannau 1 (1), 2 (1)(2), 4 (2)(3) a Rhan IV Atodlen 9 Deddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ("Deddf 1984") fel y'i diwygiwyd, Deddf Rheoli Traffig 2004 ("Deddf 2004") a phob pŵer galluogi arall, ac ar ôl ymgynghori â Phrif Swyddog yr Heddlu yn unol â Rhan III Atodlen 9 Deddf 1984, drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:-

## ADRAN 1 – RHAGARWEINIOL

**Enwi a chychwyn**

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 7 Ebrill 2023 a gellir cyfeirio ato fel Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint, A5026 A BRON HAUL, BAGILLT (Gwaharddiad a Chyfyngiad ar Aros a Mannau Llwytho a Pharcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) (Diwygiad Rhif 55) 2023

2. Yn dod i rym o'r dyddiad a nodir yn Erthygl 1 uchod, mae Atodlen Map AD44, Taflen Adolygu Rhif 2, yn disodli Atodlen Map AD44 Taflen Adolygu Rhif 1 ac mae Atodlen Map AD45, Taflen Adolygu Rhif 2 yn disodli Atodlenni Map AD45 Taflen Adolygu Rhif 1 a'r holl atodlenni map eraill ynghyd â'r Atodlenni Map a grybwyll o'r blaen a chynlluniau y cyfeirir atynt yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn yn cael eu hymgorffori yn y Gorchymyn Cyngor Sir y Fflint (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Mannau Parcio) (Gorfodaeth Sifil ac Atgyfnerthu) 2013.

3. Bydd Deddf Dehongli 1978 yn berthnasol ar gyfer dehongli'r Gorchymyn hwn fel y mae'n berthnasol i ddehongli Deddf Seneddol

4. Yn y Gorchymyn hwn, oni nodir fel arall, mae unrhyw gyfeiriad at Erthygl neu Atodlen gyda rhif yn gyfeiriad at yr Erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw, ac mae unrhyw gyfeiriad at gynllun yn cyfeirio at gynllun wedi'i ymgorffori yn y gorchymyn hwn.

**ATODLEN**
**Dim Aros ar Unrhyw Adeg**
**Bagillt**

| Enw'r Ffordd | Atodlen Map | Diwygiad Taflen |
|---|---|---|
| A5026 | AD44 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| | AD45 | 2 (sy'n dirymu Diwygiad Taflen 1 o Orchymyn 2013) |
| | AE45 | 1 |
| BRON HAUL | AD45 | 1 |

Rhoddwyd **SÊL GYFFREDIN** )
**CYNGOR SIR Y FFLINT** )
yn y fan hon )
ar 28 Mawrth 2023 )
yng ngŵydd:- )

**Y CADEIRYDD**

**RHEOLWR Y GWASANAETHAU CYFREITHIOL**

~~**PRIF SWYDDOG LLYWODRAETHU**~~

~~**UWCH GYFREITHIWR**~~